Hydref 2013

Lleisiau o Lawr y Ffatri'

Prosiect i gasglu profiadau menywod a fu'n gweithio yn y diwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru, 1945-75

Newyddion gwych i AMC!

Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri wedi rhoi grant sylweddol i AMC i recordio hanesion llafar menywod oedd yn gweithio yn y diwydiannau gweithgynhyrchu ledled Cymru rhwng 1945 ac 1975. At hyn byddwn yn casglu ffotograffau a dogfennau perthnasol i'r hanes hwn oddi wrth y rhai fydd yn cymryd rhan yn y project.

Yn ystod y cyfnod hwn agorwyd cannoedd o ffatrïoedd diwydiannau ysgafn yng Nghymru, o ffatrïoedd Laura Ashley yn y canolbarth, teganau Triang ym Merthyr Tudful, Berlei Bras yng Nglyn Ebwy i Mettoy yn Abertawe. Menywod oedd mwyafrif helaeth gweithleoedd y ffatrïoedd hyn ond mae eu hanesion bellach bron wedi eu hanghofio ac os na wneir rhywbeth ar fyrder cânt eu colli am byth. Bydd y prosiect hwn yn ceisio achub yr atgofion hyn ac yn talu teyrnged i'r menywod a chwaraeodd ran mor allweddol yn adfer economi Cymru wedi'r Ail Ryfel Byd.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn bydd AMC yn penodi dau Swyddog Maes (un i'r gogledd ac un i'r de) i weithio ar delerau llawrydd i adnabod siaradwyr posibl ac i gynnal nifer o'r cyfweliadau llafar. At hyn byddan nhw'n hyfforddi gwirfoddolwyr, yn arbennig felly aelodau AMC, i helpu gyda'r recordio a chyda thrawsysgrifio'r hanesion.

Dyma ALWAD felly i holl aelodau AMC a fyddai'n hoffi helpu gyda'r prosiect pwysig hwn (bydd sesiynau hyfforddiant ar hanes llafar ac ar feistroli'r offer recordio yn cael eu trefnu) - cysylltwch os gwelwch yn dda â Catrin Stevens (Cydlynydd y Prosiect) cyn gynted ag y bo modd ar e-bost catrin@stevens2760.freeserve.co.uk <mailto:catrin@stevens2760.freeserve.co.uk> neu galwch 01792 893410

Mawrth 2013

Darlith Goffa Ursula Masson

Dathlwyd Diwrnod Rhyngwladol Menywod yn Adeilad yr Atriwm, Prifysgol Morgannwg, gyda'r Adran Astudiaethau Gender yn cefnogi'r digwyddiad.

Traddododd yr Athro Karen Black o Brifysgol Keele ddarlith "*Only Connect": Women's Politics and the Everyday between the Wars*. Disgrifiodd sut yr oedd gwleidyddion benywaidd lleol a chenedlaethol yn cael eu cefnogi a'u cynnal gan rwydwaith eang o sefydliadau gwleidyddol ac anwleidyddol. Ym Manceinion y bu hi'n ymchwilio, ond gellid addasu'r ddadl i ardaloedd eraill o'r DU, gan gynnwys Cymru.

Mae'r darlun yn dangos rhan o'r gynulleidfa dda yn aros i'r ddarlith ddechrau.

Ymweliad ag Archifau Gwent, 12fed Ionawr, 2013

Er gwaethaf y tywydd difrifol mentrodd dwsin o aelodau ar ymweliad ag adeiladau trawiadol newydd Archifau Gwent. Mae'r Archifau bellach wedi'u cadw yn hen adeilad Swyddfa Gyffredinol gwaith dur Glyn Ebwy, gyda storfa fodern a chyfleusterau cadwraeth yn amgylchynu'r adeilad cofrestredig. Ceir cerdd gan Gillian Clarke i gwblhau'r cyfanwaith. Cedwir archifau o Gasnewydd, Torfaen, Blaenau Gwent, sir Fynwy a rhan o Gaerffili yma. Mae digon o staff cyfeillgar yn yr Ystafell Ymchwil, ac mae ar agor ar 2il Sadwrn y mis o 10.00 tan 4.00, yn ogystal ag o 9.30 tan 5.00 ar ddyddiau'r wythnos. Diolch yn fawr i Gary Tuson.

Cynhaliwyd Cynhadledd 2012 yn y Fenni ar Hydref 12fed a 13eg. Ymhlith y roedd: Gary Tuson, Nikki Brown, Elizabeth Belcham, Mary Jane Stevenson, Colin Thomas, Gwyneth Tyson Roberts, Cathryn Charnell-White, Ruth E Richardson a Catrin Stevens. Yr Athro Deirdre Beddoe oedd y brif siaradwraig a hynny ar 'Menywod mewn Diwydiant yng Nghymru wedi'r Ail Ryfel Byd'; a chafwyd cyflwyniad gan Di Setch a Dilys Jackson ar Gymdeithas Gelfyddydau'r Menywod. Daeth y gynhadledd i ben gyda phanel yn trafod gweithredu cynnar gan Jane Hutt AC, Alison Scouller a Jennifer Cole.